



UK YOUTH 4 NATURE

# Maniffesto ar gyfer Cymru Bioamrywiol

# Manifesto for a Nature-Rich Wales



## Not So Freshwater Campaign

## 2026





UK YOUTH 4 NATURE

# Maniffesto ar gyfer Cymru Bioamrywiol

Ym mis Mai 2026, bydd Cymru yn ethol y llywodraeth a fydd naill ai'n cyflawni neu'n methu â chyflawni targedau natur y genedl ar gyfer 2030. I'n cenhedlaeth ni, mae'r foment hon yn hollbwysig. Rhaid diffinio tymor nesaf y Senedd gan adferiad, uchelgais a chyfrifoldeb trawslywodraethol dros natur.

Mae maniffesto Ieuenctid dros Natur y DU yn nodi'r camau gweithredu allweddol y mae pobl ifanc yn credu sy'n hanfodol i sicrhau Cymru sy'n ffynnu ac yn gyfoethog o ran natur. Mae'r cynigion hyn yn adlewyrchu ein gweledigaeth ar gyfer gwlad lle mae bywyd gwyllt yn adfer, lle mae cymunedau'n wydn, a lle mae gwneud penderfyniadau yn cael ei arwain gan stiwardiaeth hirdymor.

## Natur ym mhob adran y Llywodraeth

Gosod natur yng nghanol penderfyniadau'r llywodraeth, gan sicrhau bod pob adran yn cyd-fynd â nodau amgylcheddol hirdymor Cymru.

Bwrw ymlaen â Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethu a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) drwy'r Senedd fel blaenoriaeth. Mae rhaid i'r llywodraeth nesaf sicrhau ei fod yn cael ei gryfhau, ei gwblhau a'i weithredu'n llawn i ddarparu'r fframwaith llywodraethu sydd ei angen ar Gymru.

Cyflawni'r Egwyddorion Amgylcheddol, Llywodraethu a Thargedau Bioamrywiaeth yn llawn ac ar amser, gan sicrhau bod Cymru'n cyflawni uchelgeisiau cenedlaethol ac ymrwymiadau rhyngwladol.

## Rhwydwaith Adfer Natur Gydlynol

Sicrhau bod pob safle dynodedig mewn cyflwr ffafriol erbyn 2035, gan ffurfio asgwrn cefn Rhwydwaith Adfer Natur gysylltiedig ledled Cymru (gan gynnwys SoDdGA, ACA, AGA ac eraill). Cyflawni 30x30 trwy ddynodi a rheoli ardaloedd gwarchodedig yn effeithiol, gan osgoi creu "parciau papur".

Dilyn diwygio deddfwriaethol ar gyfer Parciau Cenedlaethol fel bod eu pwrpas yn cyd-fynd â'r dasg ganolog o adfer natur.

## Dyfodol Cyfeillgar i Natur ar gyfer Ffermio

Cefnogi ffermwyr i drawsnewid i arferion ffermio sy'n gyfeillgar i natur drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Dyrannu cyllid gyda buddsoddiad o 50% yn yr Haen Gyffredinol a 50% wedi'i rannu ar draws Haenau Dewisol a Chydweithredol.

Sicrhau cyllidebau cynyddol, wedi'u neilltuo ac amlflwyddyn ar gyfer ffermio Cymru i sicrhau y gellir cyflawni camau gweithredu dewisol a chydweithredol yn llawn.

## Cynllunio Seilwaith sy'n Gwarchod ac yn Adfer Natur

Cyflwyno a chynnal rhagdybiaeth yn erbyn datblygiadau mewn neu ger SoDdGAau a chynefinoedd na ellir eu hadnewyddu.

Gwneud dylunio sy'n bositif i natur yn ddull rhagosodedig wrth gynllunio, nid ychwanegiad iawndal.

Sicrhau bod gan bob cymuned, trefol neu wledig, fynediad at fannau gwyrdd a glas o ansawdd uchel.

Gorfodi dylunio sy'n gyfeillgar i natur fel SuDS (neu Systemau Draenio Cynaliadwy), briciau gwennol ddu a nodweddion ecolegol profedig eraill.

## Natur a Chyflogaeth

Sefydlu a darparu adnoddau i Wasanaeth Natur Cymru i greu swyddi gwyrdd o ansawdd uchel a hygyrch sy'n cyflawni adferiad natur ymarferol.

Sicrhau bod pobl ifanc a grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn hanesyddol yn derbyn cefnogaeth i ymuno a symud ymlaen yn y sector natur.

## Newid Hinsawdd

Mabwysiadu mesurau addasu sy'n seiliedig ar natur ar draws ardaloedd gwledig a threfol i baratoi cymunedau Cymru ar gyfer tywydd eithafol sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd.

Cefnogi dyrchafu newid hinsawdd i argyfwng cenedlaethol ar lefel y DU i gyd-fynd â graddfa a brys yr her.

## Ein Galwad i Lywodraeth Nesaf Cymru

Bydd tymor seneddol 2026-2030 yn penderfynu a fydd Cymru'n troi'r llanw dros natur. Mae angen llywodraeth ar bobl ifanc sy'n barod i weithredu ar frys ac uchelgais hirdymor.

Rydym yn rhagweld Cymru lle mae natur ffyniannus yn sail i gymunedau iach, ffermydd gwydn a thrawsnewidiad cyfiawn i hinsawdd sefydlog. Gydag arweinyddiaeth feiddgar, mae'r dyfodol hwn yn bosibl.

**ukyouthfornature@gmail.com**



# UK Youth for Nature: Manifesto for a Nature-Rich Wales



In May 2026, Wales will elect the government that will either realise or fall short of the nation's 2030 nature targets. For our generation, this moment is pivotal. The next Senedd term must be defined by restoration, ambition and cross-government responsibility for nature.

UK Youth for Nature's manifesto sets out the key actions young people believe are essential to secure a thriving nature-rich Wales. These proposals reflect our vision for a country where wildlife is in recovery, communities are resilient, and decision-making is guided by long-term stewardship.

## Nature Embedded Across Government

Place nature at the centre of government decision-making, ensuring all departments align with Wales' long-term environmental goals.

Progress the Environment (Principles, Governance and Biodiversity Targets) (Wales) Bill through the Senedd as a priority. As the Bill is currently at Stage 2, the next government must ensure it is strengthened, completed and fully implemented to provide the governance framework Wales needs.

Deliver the Environmental Principles, Governance and Biodiversity Targets in full and on time, ensuring Wales meets national ambitions and international commitments.

## Coherent Nature Recovery Network

Ensure all designated sites are in favourable condition by 2035, forming the backbone of a connected Nature Recovery Network across Wales (including SSSIs, SACs, SPAs and others).

Achieve 30x30 by designating and effectively managing protected areas, avoiding the creation of "paper parks".

Pursue legislative reform for National Parks so their purpose aligns with the central task of nature recovery.

## A Nature-Friendly Farming Future

Support farmers to transition to nature-friendly farming practices through the Sustainable Farming Scheme.

Allocate funding with a 50% investment in the Universal Layer and the remaining 50% shared across Optional and Collaborative Layers.

Secure increased, ring-fenced and multi-year budgets for Welsh farming to ensure optional and collaborative actions can be fully delivered.

## Infrastructure Planning that Protects and Restores Nature

Introduce and uphold a presumption against developments in or near SSSIs and irreplaceable habitats.

Make nature-positive design the default approach in planning, not a compensatory add-on.



Guarantee that every community, urban or rural, has access to high-quality green and blue spaces.

Mandate nature-friendly design such as SuDS (or Sustainable Drainage Systems), swift bricks and other proven ecological features.

## Nature and Employment

Establish and resource Nature Service Wales to create high-quality, accessible green jobs delivering practical nature recovery.

Ensure that young people and historically excluded groups receive targeted support to enter and progress within the nature sector.

## Climate Change

Adopt nature-based adaptation measures across rural and urban areas to prepare Welsh communities for climate-related extreme weather.

Support elevating climate change to a national emergency at UK level to match the scale and urgency of the challenge.





## Our Call to the Next Welsh Government

The 2026-20230 parliamentary term will determine whether Wales turns the tide for nature. Young people need a government prepared to act with urgency and long-term ambition.

We envision a Wales where thriving nature underpins healthy communities, resilient farms and a just transition to a stable climate. With bold leadership, this future is within reach.

**ukyouthfornature@gmail.com**





